**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf: MA/HIDCC/0455/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN.

11 Tachwedd 2025

Annwyl Llŷr,

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 14 Hydref 2025. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) (Rhif 2) 2025 ('y Rheoliadau'). Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig a gallwch ei ddarllen yma: https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/ws-ld17541-cy.pdf.

Mae'r Rheoliadau'n gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 6 Tachwedd 2025 gyda dyddiad cychwyn o 30 Tachwedd 2025, ac eithrio'r cywiriad i'r gofynion mewnforio presennol ar gyfer Xylella fastidiosa sy'n dod i rym ar 6 Mai 2026.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol am y rhesymau a ddisgrifir yn fy llythyr dyddiedig 14 Hydref.

Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.